



## Mentrau Cydweithredol yn Economi Cymru

Adroddiad gan  
Sefydliad Bevan i  
Ganolfan Cydweithredol Cymru



## CYNNWYS

01-03

### **Cymru Gydweithredol**

Beth yw cwmni cydweithredol?

04-10

### **Cwmnïau Cydweithredol o Ddifrif**

Masnachu eithriadol

Proffidioldeb cwmnïau cydweithredol

Cyflogaeth gynaliadwy

Arloesi ac ansawdd

Sefydlogrwydd economaidd

11-12

### **Mantais Ychwanegol Cwmnïau Cydweithredol**

Budd cymunedol

Cydraddoldeb

Effaith ar yr Amgylchedd

13

### **Dyfodol Cwmnïau Cydweithredol**

## RHAGAIR

2012 yw Blwyddyn Ryngwladol Cwmnïau Cydweithredol y Cenhedloedd Unedig yn ogystal â phen-blwydd Canolfan Cydweithredol Cymru yn ddeg ar hugain oed. I nodi'r flwyddyn rydym yn cyhoeddi cyfres o adroddiadau i ystyried gwahanol agweddau ar yr economi gydweithredol o gwmnïau cydweithredol gweithwyr i gonsortia o gwmnïau cydweithredol. Ein nod yw hyrwyddo potensial y model cydweithredol ac ystyried lle cwmnïau cydweithredol ar gyfer tyfu economi Cymru.

Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf yn y gyfres ac mae'n pwysu a mesur rôl cwmnïau cydweithredol yn economi Cymru heddiw. Mae'n gweithredu fel sylfaen ar gyfer y flwyddyn gan ddwyn ynghyd, mewn un lle, yr ymchwil a'r wybodaeth ddiweddaraf am gwmnïau cydweithredol yn ein gwlad.

Gweledigaeth Canolfan Cydweithredol Cymru yw i Gymru fod yn arweinydd rhyngwladol ar weithredu a meddwl cydweithredol. Gwyddom na allwn gyflawni hyn ar ein pen ein hunain ac fe'ch gwahoddwn i ddweud wrthym ni sut y gallwn weithio'n gydweithredol er mwyn cyrraedd y nod hwn.

## **Derek Walker, Prif Weithredwr**

### **Canolfan Cydweithredol Cymru**

Llys Llandaf, Heol y Tyllgoed, Caerdydd CF5 2XP

Ff: 0300 111 5050 E: [info@walescooperative.org](mailto:info@walescooperative.org)

G: [www.walescooperative.org](http://www.walescooperative.org)

Trydarwch gyda ni @WalesCoOpCentre

Dilynwch ni ar Facebook –

[www.facebook.com/pages/Wales-Co-operative-Centre/152437750784](https://www.facebook.com/pages/Wales-Co-operative-Centre/152437750784)



# CYMRU GYDWEITHREDOL



Mae cwmnïau cydweithredol yn gwneud cyfraniad pwysig i economi Cymru, y DU a'r economi fyd-eang. Maent yn amrywio o grwpiau graddfa fechan i fusnesau gwerth aml i filiwn o bunnau, cyflogant dros 100 miliwn o bobl ym mhob cwr o'r byd,<sup>ii</sup> a sicrhânt fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i'w haelodau, eu cymunedau a'r gwledydd lle maent wedi'u lleoli. Mae cwmnïau cydweithredol wedi chwarae rôl allweddol mewn trawsnewid economïau sawl rhanbarth o'r byd, megis Emilia Romagna yn yr Eidal.

Gyda'i gilydd, ceir oddeutu 5,000 o gwmnïau cydweithredol annibynnol yn y DU,<sup>i</sup> gyda chwmnïau cydweithredol a sefydliadau cydberchnogaeth eraill yn cynhyrchu ffigur amcangyfrifedig o £25 biliwn mewn referniw – ffigur sy'n cyfateb i 2% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) y DU.<sup>ii</sup>

Yng Nghymru, mae cwmnïau cydweithredol yn cynhyrchu dros £1 biliwn mewn incwm y flwyddyn, cyflogant oddeutu 7,000 o bobl, maent i'w cael mewn pob maint a math, ac i'w gweld bron ym mhob sector o'r economi ac ym mhob rhan o Gymru.

Yn 2012, Blwyddyn Ryngwladol Cwmnïau Cydweithredol y Cenhedloedd Unedig, mae'n amser gweld beth yw hyd a lled cyfraniad cwmnïau cydweithredol Cymru i economi, cymdeithas ac amgylchedd Cymru ac edrych ymlaen i'r rôl y gallent ei chwarae i wneud

Cymru yn lle ffyniannus, cynaliadwy a theg. Gyda'r rhagolygon ar gyfer yr economi, gwasanaethau cyhoeddus a lles pobl yn edrych yn llawn her, rhaid cydnabod cyfraniad unigryw cwmnïau cydweithredol i newid y rhagolygon ar gyfer Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymchwil am gwmnïau cydweithredol<sup>1</sup> yng Nghymru a'r DU ac mae'n canfod bod cwmnïau cydweithredol yn cynnig saith o fanteision i Gymru:

- + Mae cwmnïau cydweithredol yng Nghymru yn fusnesau ffyniannus, cynaliadwy
- + Mae cwmnïau cydweithredol yng Nghymru yn darparu swyddi o ansawdd da y mae taer eu hangen
- + Mae cwmnïau cydweithredol yng Nghymru yn cyflenwi gwasanaethau hanfodol i gyhoedd Cymru
- + Mae cwmnïau cydweithredol yng Nghymru o fudd i'r gymuned ac i'w haelodau
- + Mae cwmnïau cydweithredol yng Nghymru yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anfantais
- + Mae cwmnïau cydweithredol yng Nghymru yn helpu i warchod yr amgylchedd
- + Mae cwmnïau cydweithredol yng Nghymru wedi ymrwymo i Gymru

## £25bn

Mae cwmnïau cydweithredol y DU a sefydliadau cydberchnogaeth eraill yn cynhyrchu oddeutu £25 biliwn mewn referniw

## £1bn

Yng Nghymru, mae cwmnïau cydweithredol yn cynhyrchu dros £1 biliwn mewn incwm y flwyddyn

## 7,000

Yng Nghymru, mae cwmnïau cydweithredol yn cyflogi oddeutu 7,000 o bobl

<sup>1</sup> Cymharol gyfyngedig yw'r dystiolaeth ar gwmnïau cydweithredol felly dyfynnir hefyd ymchwil ar fentrau cymdeithasol yn gyffredinol (a oedd yn cynnwys cwmnïau cydweithredol), cwmnïau cydfuddiannol a busnesau dan berchnogaeth y gweithwyr. Rhoddir y math o sefydliad y cyfeiria'r ymchwil ato yn y testun.

# CYMRU GYDWEITHREDOL

## Elw

Caiff yr elw a gynhyrcha'r cwmnïau cydweithredol ei ddosbarthu i'r aelodau neu ei ail-fuddsoddi yn y busnes

## 40%

Erbyn 2003 cwmnïau cydweithredol oedd i gyfrif am 40% o gynnyrch mewnwladol crynswth rhanbarth Emilia Romagna o'r Eidal

## 10%

Cwmnïau cydweithredol Emilia Romagna hefyd oedd i gyfrif am 10% o gyflogaeth erbyn 2003

### Beth yw Cwmni Cydweithredol?

Ni cheir diffiniad cyfreithiol o gwmni cydweithredol ond deallir yn gyffredinol ei fod yn fusnes sy'n cael ei redeg gan grŵp o bobl neu fusnesau sy'n gweithio gyda'i gilydd er budd ei aelodau, sydd, yn ogystal, yn glynu wrth saith o werthoedd ac egwyddorion y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol.

Yr aelodau sy'n rheoli gweithgareddau'r cwmni cydweithredol a gallent fod yn weithwyr i'r busnes, yn ddefnyddwyr gwasanaethau i'r busnes, neu'n gefnogwyr i'r busnes. Caiff yr elw a gynhyrcha'r cwmnïau cydweithredol ei ddosbarthu i'r aelodau neu ei ail-fuddsoddi yn y busnes.

Mae cwmnïau cydweithredol, fel cwmnïau cydfuddiannol, yn rhan o'r teulu ehangach o fentrau cymdeithasol o ran bod ganddynt nodau cymdeithasol yn ogystal â nodau economaidd ac maent yn dosbarthu'r elw i'r aelodau neu'n ei ail-fuddsoddi.

Mae sawl math gwahanol o gwmnïau cydweithredol i'w cael, gan gynnwys:

**Cwmnïau cydweithredol gweithwyr**  
Busnesau lle mae'r holl bobl sy'n gweithio yno yn berchnogion llwyr arnynt ac yn eu rhedeg.<sup>iii</sup>

**Cwmnïau cydweithredol defnyddwyr**  
Ceir nifer o wahanol fathau o fusnesau sy'n eiddo i'w cwsmeriaid, er nad yw'r cyfan ohonynt bob amser yn cael eu cydnabod fel cwmnïau cydweithredol. Mae cwmnïau cydweithredol defnyddwyr yn cynnwys:

- + **Undebau Credyd** – Cwmni cydweithredol defnyddwyr sy'n darparu gwasanaethau ariannol i'w aelodau
- + **Cwmnïau Cydweithredol Tai** – Sefydliad lle mae'r tenantiaid neu'r perchnogion yn rhedeg ac yn rheoli eu cartrefi yn ddemocrataidd
- + **Ymddiriedolaethau cefnogwyr** – Sefydliadau sy'n berchen ar leoliad neu glwb chwaraeon ac yn ei reoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol
- + **Cymdeithasau Adeiladu** – sefydliadau ariannol sy'n eiddo i'w haelodau ac a reolir ganddynt
- + **Yswirwyr cydfuddiannol** – sefydliadau ariannol sy'n rhannu'r risg rhwng yr aelodau
- + **Cymdeithasau a chlybiau aelodaeth** – grwpiau sy'n bodloni anghenion eu haelodau

### Consortia

Caiff y busnesau hyn eu galw'n gwmnïau cydweithredol marchnata neu'n gwmnïau cydweithredol eilaidd weithiau, a chânt eu ffurfio gan fusnesau sy'n gweithio gyda'i gilydd i ennill mantais gystadleuol e.e. ar gyfer prynu neu farchnata.

### Cwmnïau Cydweithredol Cymunedol

Cwmni cydweithredol neu fenter gymdeithasol sy'n eiddo i aelodau'r gymuned i ddarparu gwasanaethau neu nwyddau i gymuned benodol.

Weithiau, gall cwmni cydweithredol gynnwys rhanddeiliaid amryfal, er enghraifft gweithwyr a chwsmeriaid fel ei gilydd.







## Yr Eidal – Stori am Lwyddiant Cwmnïau Cydweithredol

**Nifer y cwmnïau cydweithredol:**  
70,400

**Yn cyflogi:** 1 miliwn o bobl

Mae cwmnïau cydweithredol yr Eidal yn stori lwyddiant fyd-eang. Maent wedi mynd o chwarae rôl ddibwys yn yr economi i rôl arweiniol heddiw.<sup>iv</sup> Maent yn gweithredu mewn ystod eang o sectorau: cwmni cydweithredol yw cadwyn archfarchnadoedd fwyaf yr Eidal, Coop Italia, ac mae'n cynnwys 115 o gwmnïau cydweithredol defnyddwyr fel rhan o'r gadwyn ynghyd â 1,444 o siopau a 56,682 o weithwyr.

Mae cwmnïau cydweithredol cynhyrchwyr yn bwysig hefyd – caiff dros 40% o winoedd yr Eidal eu cynhyrchu gan gwmnïau cydweithredol<sup>v</sup> felly hefyd llawer o gynnyrch caws parmesan a bwydydd a diodydd eraill.

Cyflwynwyd cwmnïau cydweithredol cymdeithasol yn fwy diweddar, ac

maent yn awr yn cwmpasu amrediad eang o weithgareddau cymdeithasol. Yn 1985, 650 yn unig a gafwyd, o'i gymharu â ffigur amcangyfrifedig o 6,800 yn 2002 gyda dros 100,000 o weithwyr. Amcangyfrifir bod oddeutu hanner miliwn yn defnyddio cwmnïau cydweithredol cymdeithasol, gan gynnwys rhai o'r grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas – mae'r cwmnïau cydweithredol hefyd yn cyflogi cyfran gymharol uchel o bobl anabl.<sup>vi</sup> Amcangyfrifir bod trosiant cyfunol cwmnïau cydweithredol cymdeithasol yn oddeutu 1.3 biliwn ewro heddiw.<sup>vii</sup>

Ceir dwy ffurf gyfreithiol o gwmnïau cydweithredol: 'math A' sy'n darparu gwasanaethau iechyd, cymdeithasol neu addysgol, a 'math B' sy'n ceisio integreiddio pobl dan anfantais yn ôl i'r farchnad lafur. Gyda'i gilydd, cynigiant ateb i'r nifer gynyddol o bobl sydd ar gyrion cymdeithas ac na allant ddod o hyd i gyflogaeth addas. Mae cwmnïau cydweithredol Math B yn effeithiol iawn am gyflogi pobl anabl.

Ymysg y ffactorau allweddol yn natblygiad cwmnïau cydweithredol yr

Eidal fu'r cyllid sydd ar gael, perthnasoedd blaenoriaethol, treth ffafriol, y rôl a chwaraewyd gan gonsortia o gwmnïau cydweithredol yn gweithio gyda'i gilydd i helpu eraill, fframwaith cyfreithiol cadarnhaol, asiantaeth mentrau cyhoeddus a phartneriaethau ag eraill.<sup>viii</sup>

### Emilia Romagna

Yn yr Eidal, mae rhanbarth Emilia Romagna a arferai fod yn dlawd wedi sicrhau twf gwirioneddol hynod ar gyfer ei 3.9 miliwn o bobl.<sup>ix</sup> Bu i ymdrechion dwys i greu cwmnïau cydweithredol newydd yn y rhanbarth arwain at greu miloedd o gwmnïau cydweithredol – erbyn 2003 cwmnïau cydweithredol oedd i gyfrif am 40% o CMC y rhanbarth, am 10% o'r gyflogaeth, a darparent dros 85% o wasanaethau cymdeithasol y ddinas.<sup>x</sup> Mae Emilia Romagna yn awr yn un o ranbarthau mwyaf ffyniannus yr Eidal, gan fod yr incwm y pen wedi cynyddu o'r 17eg safle i'r ail o blith 20 rhanbarth yr Eidal. Priodolir y llwyddiant i gefnogaeth ddwys gan y llywodraeth i gwmnïau bach a chanolig eu maint gan gynnwys cwmnïau cydweithredol, ynghyd â pherthnasoedd da rhwng cwmnïau cydweithredol.

# CWMNIAU CYDWEITHREDOL O DDIFRIF

## £1bn

Yng Nghymru, mae cwmnïau cydweithredol yn cynhyrchu dros £1 biliwn y flwyddyn mewn incwm

## £165m

Mae wyth o gwmnïau cydweithredol Cymru yn y 100 uchaf o gwmnïau cydweithredol y DU o ran trosiant; mae gan yr wyth hyn yn unig drosiant o dros £165 miliwn

## Cwmni cydweithredol gweithwyr

Dulas Ltd yw ail gwmni cydweithredol gweithwyr mwyaf y DU

Mae cwmnïau cydweithredol yn sector dynamig, ffyniannus o economi Cymru. Nid yn unig y mae nifer o gwmnïau cydweithredol unigol yn llwyddo, mae'r sector fel cyfangorff yn perfformio'n well na mathau eraill o fusnesau.

Mae cwmnïau cydweithredol yn gweithredu bron ymhob sector o'r economi, o adwerthu a gwasanaethau ariannol i ffermio, fferylliaeth, ynni adnewyddadwy, y celfyddydau, gweithgynhyrchu a mwy. Yn ôl trosiant, mae bron tri chwarter y cwmnïau cydweithredol yn y byd adwerthu, mae 11% yn y byd amaethyddiaeth a gweithgareddau cysylltiedig, a 7% yn y maes tai.

Cafodd oddeutu dwy ran o dair o'r cwmnïau cydweithredol yng Nghymru eu sefydlu o ddim, gyda'r traean sy'n weddill yn deillio o weithwyr yn prynu'r busnes.<sup>xii</sup> Yn ddiweddar, sefydlwyd nifer o gwmnïau cydfuddiannol yn sgîl trosglwyddo'r stoc dai o berchnogaeth awdurdodau lleol.

Busnesau yw cwmnïau cydweithredol – maent yn masnachu fel busnesau prif ffrwd a rhaid iddynt sicrhau eu bod yn hydal, yn cydbwysu eu hincwm a'u gwariant a rheoli eu hasedau yn union fel BBaCh (busnes bach a chanolig ei faint) neu CCC.

## Masnachu eithriadol

Roedd gan gwmnïau cydweithredol yng Nghymru drosiant cyfunol o dros £1 biliwn yn 2010, sy'n fwy na'r flwyddyn ariannol flaenorol.<sup>xiii</sup> Mae twf yn nhrosiant cwmnïau cydweithredol yn perfformio'n well nag economi'r DU yn ei chyfanrwydd, ac nid llwyddiant unwaith ac am byth yw hwn – mae'r trosiant wedi tyfu'n cyflymach yng nghwmnïau cydweithredol y DU nag yn yr economi yn ei chyfanrwydd yn ystod y tair blynedd diwethaf.<sup>xiv</sup>

Mae wyth o gwmnïau cydweithredol Cymru yn y 100 uchaf o gwmnïau cydweithredol y DU, o ran trosiant; mae gan yr wyth hwn yn unig drosiant o dros £165 miliwn.<sup>xv</sup>

Mae cwmnïau cydweithredol Cymru hefyd yn ymddangos ar y brig mewn rhestrau o gwmnïau cydweithredol o fath penodol, er enghraifft Dulas Ltd yw'r ail gwmni cydweithredol gweithwyr mwyaf yn y DU, a Chartrefi Cymunedol Cynon Taf (2007) yw ail gwmni cydweithredol tai mwyaf y DU.<sup>xvi</sup>

Mae'r mwyafrif helaeth o gwmnïau cydweithredol yn cynhyrchu eu hincwm o fasnachu. Y brif ffynhonnell incwm i bedwar allan o bob deg o gwmnïau cydweithredol bron yw masnachu gyda'r cyhoedd, gyda thri o bob deg arall yn masnachu'n bennaf gyda'r sector cyhoeddus neu'r sector preifat.<sup>xvii</sup> Ychydig iawn o gwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol sy'n dibynnu ar grantiau a rhoddion yn hytrach nag ar incwm masnachu – 14% yn unig sy'n gwneud hynny.

Adlewyrchir perfformiad eithriadol cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol yn eu hyder am dwf i'r dyfodol: er bod 47% o BBaChau yn disgwyl tyfu yn y 12 mis nesaf, mae 57% o gwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol yn disgwyl gwneud hynny.<sup>xviii</sup>







## Calon Wen Organic Milk Co-operative Ltd

**Sefydlwyd:** 2000

**Busnes:** Prosesu Ilaeth organig

**Aelodau:** 25

**Trosiant:** £10 miliwn

Mae Calon Wen yn ymfalchïo yn ansawdd ei gynnyrch - mae ei laeth yn organig ac ychydig iawn o brosesu a wneir arno (ac yn holl bwysig, nid yw'n homogenaidd) er mwyn cadw'i les a'i flas. Mae'r taliadau i ffermwyr yn adlewyrchu swmp a sylwedd y laeth a gynhyrchant, ac mae'n golygu na chaiff ffermwyr eu gwthio at systemau cynhyrchu dwys, a bu'r taliadau hefyd yn uwch na phris y farchnad yn gyson. Mae ganddo chwaer-gwmni sydd hefyd yn cynhyrchu menyn a chaws.

Mae Calon Wen wedi ennill gwobrau niferus megis Cynhyrchydd y Flwyddyn Gwobrau Bwyd a Ffermio BBC Radio 4, Enillydd Gwir Flas Cymru, a dyma'r Ilaethdy cyntaf yn y DU i ennill Symbol Masnachu Moesegol Cymdeithas y Pridd.

Mae Calon Wen yn awr yn cyflenwi cwmnïau arweiniol megis Rachel's a Caws Cenarth gyda'u holl ofynion Ilaeth organig; maent hefyd yn potelu Ilaeth i'w werthu i archfarchnadoedd ac yn cyflenwi Ilaeth ar gyfer cynhyrchion hufen iâ newydd Zizzi.

Mae gan Calon Wen ffocws cadarn ar foeseq, o gontractau teg â'u haelodau drwodd i gyflogi'r bobl sy'n pacio'r Ilaeth a'r modd y mae'n cefnogi cymunedau lleol ac yn dathlu treftadaeth Cymru.



## Shaw Health Care

**Sefydlwyd:** 2006

**Busnes:** Cartrefi gofal, gofal ac ysbytai

**Trosiant:** £81 miliwn (DU)

**Elw Cyn Treth:** £3.2 miliwn (DU)

**Gweithwyr:** Mae 1,400 o weithwyr yn berchen ar 70% – y rhiant gwmni, Shaw Homes, sy'n berchen ar 30%

Daeth Shaw yn gwmni cydweithredol er mwyn bod yn fwy entrepreneuraidd nag a ganiatâi ei statws elusennol gynt. Mae'r entrepreneuriaeth hon wedi creu'r cyfoeth sydd gan y cwmni heddiw ac wedi galluogi iddynt ddatblygu'r busnes er mwyn darparu gwasanaethau cystadleuol a blaengar. Mae bod yn entrepreneuraidd yn golygu canfod anghenion cwsmer a chynnig iddynt wasanaeth y gallant ei fforddio. Fel cwmni cydweithredol gallant wneud y buddsoddiad personol ac economaidd mawr sy'n ofynnol ar ddechrau datblygu gwasanaeth, rhywbeth na allent ei wneud mewn sefydliad sy'n fwy gwrthwynebol i risg, fel elusen.

Mae gan Shaw weithlu ymroddedig a llawn cymhelliad, mae'n esgor ar syniadau busnes ac mae ganddo raddau helaethach o fuddsoddiad personol yn y cwmni. Mae'r model cydweithredol yn cynnal y gweithlu ymroddedig a llawn cymhelliad hwn drwy fabwysiadu strwythur rheoli mwy cynhwysol a pharchus. Mae'r staff yn parchu ei gilydd a rhoddir iddynt lawer iawn o hyfforddiant a chefnogaeth, ac mae hyn yn golygu eu bod yn fwy tebygol o gael y gorau o bobl.



# CWMNIAU CYDWEITHREDOL O DDIFRIF

## Proffidioldeb cwmnïau cydweithredol

Roedd 2010 hefyd yn flwyddyn aruthrol o ran elw cwmnïau cydweithredol. Roedd elw cyn treth cwmnïau cydweithredol y DU yn £715 biliwn, i fyny 24.7% o 2006, gyda chwmnïau cydweithredol o bob maint a math yn y DU yn cofnodi elw cyn treth yn 2010.<sup>xix</sup> Bu i gwmnïau cydweithredol yng Nghymru, y mae cofnodion ar gael ar eu cyfer, gynhyrchu cyfanswm o elw cyn treth o £19 miliwn. Bu i'r rhan fwyaf o gwmnïau cydweithredol Cymru wneud elw, gyda thri yn cynhyrchu elw o dros £1 filiwn a phedwar arall yn cynhyrchu elw o rhwng £250,000 ac £1 filiwn:

Elw £1m a mwy	Elw £250,000 a mwy
Cartrefi RCT	Shaw Healthcare
Tai Bron Afon	Amaethwyr Clynderwen a Cheredigion
Dulas	Clwb Criced Sir Forgannwg Cartrefi Cymunedol Cynon Taf

Ffynhonnell: data Co-operatives UK

Yn ogystal, bu i'r Grŵp Cydweithredol a Co-operative Financial Services gynhyrchu elw cyn treth uwch nag erioed ar draws y DU yn 2010, sef £546m, i fyny bron 50% ar y flwyddyn flaenorol.<sup>xx</sup> Dyma'r brif fferyllfa yng Nghymru, mae'n un o'r archfarchnadoedd arweiniol, yn un o'r trefnwyr angladdau mwyaf blaenllaw ac yn un o'r banciau gorau.



## Cyflogaeth gynaliadwy

Mae cwmnïau cydweithredol yng Nghymru yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i gyflogaeth yng Nghymru, gan gyflogi miloedd o bobl mewn swyddi. Amcangyfrifir bod 7,000 yn cael eu cyflogi gan gwmnïau cydweithredol yn 2010<sup>xxi</sup> – yr un nifer ag sy'n gweithio yn niwydiannau'r cyfleustodau<sup>xxii</sup> yng Nghymru. Roedd pump o bob saith o weithwyr cydweithredol yn y maes adwerthu a chyflogwyd un o bob saith pellach mewn cymdeithasau adeiladu cydfuddiannol.<sup>xxiii</sup>

Mae record cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol yn creu ac yn cynnal swyddi yn eithriadol. Mae mentrau cymdeithasol yn cyflogi mwy o bobl mewn perthynas â throsiant na busnesau bach prif ffrwd,<sup>xxiv</sup> a chanfuwyd bod cwmnïau cydweithredol ymysg y cyflogwyr gorau.<sup>xxv xxvi</sup> Mae gan gwmnïau cydweithredol gweithwyr lefelau trosiant staff is o'i gymharu â busnesau arferol,<sup>xxvii</sup> ac mae gan fusnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr gyfraddau absenoldeb is.<sup>xxviii xxix</sup>

Mae gweithwyr mewn cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol yn llawer mwy tebygol o fod yn gysylltiedig â phenderfyniadau nag mewn mathau eraill o fusnesau<sup>xxx</sup> ac oherwydd hyn ynghyd â gwell ymdeimlad o ymreolaeth, ymddiriedaeth a rhan yn y sefydliad y gweithiant iddo, mae gweithwyr yn adrodd am lefelau llawer uwch o foddhad o'u swydd nag mewn busnesau preifat.<sup>xxxi</sup> Yn UDA mae gan weithwyr mewn cwmnïau cydweithredol fwy o amddiffyniad cymdeithasol na gweithwyr eraill, gyda buddion megis pensiynau, gofal plant ac amodau gweithio hyblyg.<sup>xxxii</sup>

Credir yn gyffredinol bod gweithwyr mewn busnesau dan berchnogaeth y gweithwyr yn gweithio'n galetach ac yn fwy cynhyrchiol na'r rheini mewn mathau eraill o sefydliadau, gan fod ganddynt fudd yn llwyddiant y busnes.<sup>xxxiii</sup>

## £715bn

Roedd elw cyn treth cwmnïau cydweithredol y DU yn £715 biliwn yn 2010

## £19m

Bu i gwmnïau cydweithredol yng Nghymru, y mae cofnodion ar gael ar eu cyfer, gynhyrchu cyfanswm elw cyn treth o £19 miliwn

## 7,000

Roedd oddeutu 7,000 o bobl yn cael eu cyflogi gan gwmnïau cydweithredol Cymru yn 2010

## Gwneud Penderfyniadau

Mae gweithwyr mewn cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol yn llawer mwy tebygol o fod yn gysylltiedig â phenderfyniadau nag mewn mathau eraill o fusnesau

# CWMNIAU CYDWEITHREDOL O DDIFRIF

## Arloesi

Mae gan gwmnïau cydweithredol a busnesau dan berchnogaeth y gweithwyr record ardderchog o arloesi

## Gwytnwch

Mae llawer o astudiaethau'n dangos bod cwmnïau cydfuddiannol a busnesau dan berchnogaeth y gweithwyr, gan gynnwys cwmnïau cydweithredol, yn fwy gwydn na chwmnïau sector preifat traddodiadol

## £2m

Mae gan Aber Instruments, sy'n cynhyrchu offer mesur biomas ar gyfer y diwydiant bragu a biotechnoleg, drosiant o £2 miliwn

### Arloesi ac ansawdd

Mae cwmnïau cydweithredol yng Nghymru yn helpu i greu gwasanaethau a nwyddau yn helpu i greu gwasanaethau a nwyddau o ansawdd, oherwydd bod gan gwmnïau cydweithredol a busnesau dan berchnogaeth y gweithwyr yn gyffredinol record ardderchog o arloesi. Mae sawl arolwg wedi canfod bod busnesau dan berchnogaeth y gweithwyr yn fwy creadigol na chwmnïau preifat, ac mae arolygon eraill wedi canfod bod mentrau cymdeithasol yn fwy tebygol na BBaChau o fod wedi cyflwyno gwasanaeth neu gynnyrch newydd yn y flwyddyn flaenorol.<sup>xxxiv</sup> Yn hanfodol, mae arloesi gan gwmnïau cydweithredol fel arfer yn fwy effeithiol nag arloesi mewn mathau eraill o fusnesau,<sup>xxxv</sup> oherwydd y credir bod gweithwyr yn fwy hyderus yn ystod cyfnod o newid ac ansicrwydd.<sup>xxxvi</sup>

Mae'r nwyddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan gwmnïau cydweithredol, busnesau dan berchnogaeth y gweithwyr a mentrau cymdeithasol yn rhai o ansawdd da. Mae cwmnïau cydweithredol yn cael adborth ar unwaith oddi wrth eu haelodau ar yr hyn y maent ei angen a'i eisiau, ac mae'n rheidrwydd arnynt i ymateb. Yn achos cwmnïau cydweithredol tai, ceir lefelau boddhad llawer uwch ymysg y cyfryw denantiaid na thenantiaid cyngor neu gymdeithasau tai, ac maent yn fwy tebygol o ddweud bod eu landlord yn gwneud gwaith da. Mae gan gwmnïau cydweithredol tai hefyd lawer llai o ôl-ddyledion rhent a thai gwag na landlordiaid eraill.<sup>xxxvii</sup>

### Sefydlogrwydd economaidd

Mae cwmnïau cydweithredol yng Nghymru yma am y tymor hir - nid ydynt yn sefydlu er mwyn cael grantiau ac yna'n gadael. Mae llawer o astudiaethau yn dangos bod cwmnïau cydfuddiannol a busnesau dan berchnogaeth y gweithwyr, yn fwy gwydn na chwmnïau sector preifat traddodiadol.<sup>xxxviii</sup> Yn rhyngwladol, mae cwmnïau cydweithredol yn tueddu i fod â chyfraddau goroesi hwy na mathau eraill o fusnesau a phrin yw achosion methdalau ymysg cwmnïau cydweithredol.<sup>xxxix</sup> Y rheswm am hyn yw pam mae amodau'n anodd mae'r busnesau sydd dan berchnogaeth y gweithwyr yn tueddu i addasu cyflogau yn hytrach na chael gwared â swyddi.<sup>xl</sup>

Mae cwmnïau cydweithredol, felly, yn rhan annatod o economi Cymru ar hyn o bryd, gan nid yn unig gynhyrchu incwm ac elw a chreu a chynnal swyddi, ond darparant hefyd wasanaethau arloesol ac o ansawdd da ac, yn hollbwysig, cynigiant y sefydlogrwydd economaidd y mae taer ei angen.





## Aber Instruments

**Sefydlwyd:** 1988

**Busnes:** Cynhyrchu offer mesur biomas ar gyfer y diwydiant bragu a biotechnoleg

**Trosiant:** £2 miliwn

**Elw gweithredol:** 25%

**Gweithwyr:** 28 o weithwyr-berchnogion

Cwmni deillio o Brifysgol Aberystwyth yw Aber Instruments ac mae yn y broses o drosglwyddo i berchnogaeth y gweithwyr. Ymysg y manteision i Aber o fod yn berchen i'r gweithwyr yw'r ymroddiad y mae'r gweithwyr yn ei ddangos i'w busnes, yn benodol yr ymrwymiad i grefftwaith o ansawdd da. Mae gweithwyr Aber yn arloesol, ac yn datblygu syniadau newydd am gynhyrchion oherwydd eu perchnogaeth o'r cwmni.

Mae'r gweithwyr yn sylweddoli mai eu busnes nhw yw hwn ac maent yn cydweithredu mewn amseroedd anodd. Mae hyn yn creu llawer iawn o gadernid yn y cwmni. Mae'r gweithwyr yn fwy tebygol o aros gyda'r cwmni oherwydd eu busnes nhw ydyw, ond mewn sefydliadau masnachol eraill gall y gweithwyr adael i fynd i weithio yn rhywle arall.

Mae'r model cydweithredol wedi caniatáu i'r cwmni wireddu ei nod sefydlol o fod yn fusnes cynaliadwy a fyddai'n aros yn lleol. Fel cwmni sy'n berchen i'r gweithwyr maent wedi gwrthod niferoedd o gynigion gan gwmnïau mwy i brynu'r cwmni ac wedi aros yn Aberystwyth.



## Old Library Artists, Caerdydd

**Sefydlwyd:** 1998

**Busnes:** Stiwdios ac orielau

**Gweithwyr:** 10 o weithwyr-berchnogion



Ffurfiwyd Old Library Artists i ddarparu gofod stiwdio diogel ac at y diben, gan ddarparu'r rhyddid i fynd a dod fel y mynnent ynghyd ag amgylchedd sympathetig gyda phobl o'r un anian, gyda pharch at ofod a bywyd gwaith ei gilydd.

Mae gweithio gyda'i gilydd wedi sicrhau manteision sylweddol. Roeddent yn gallu ymgeisio am grantiau, gan sicrhau £300,000 i brynu ac adnewyddu'r adeilad, rhywbeth na fyddai wedi bod yn bosib fel unigolion. Mae'r artistiaid yn rhannu'r costau rhedeg a'r rhent, gan arbed i'r aelodau o leiaf 30% ar ofodau orielau a stiwdios sydd ar gael yn fasnachol. Mae aelodau'r cwmni cydweithredol hefyd yn talu cyfraddau comisiwn llawer is ar waith a werthir yn yr oriel – 10% o'i gymharu â'r 50% a godir fel arfer gan oriel fasnachol.

Mae presenoldeb y cwmni cydweithredol yng nghanol Caerdydd yn rhoi iddynt broffil uchel ac mae wedi caniatáu iddynt adeiladu sylfaen gleientiaid, gyda chwsmeriaid yn dychwelyd i'r oriel i weld gwaith diweddaraf yr artistiaid. Gallant gynnig benthyciadau di-log (drwy gyfrwng Cyngor Celfyddydau Cymru) i brynu'u gwaith celf, gan gynyddu gwerthiannau a refeniw. Ymysg y manteision eraill y mae gwefan a rennir i arddangos eu gwaith, rota i rannu'r cyfrifoldeb am ofalu am yr oriel, a hefyd bod pobl yn yr adeilad yn ystod yr wythnos i dderbyn cyflenwadau, ateb y ffôn ayb. Yn olaf, mae bod yn gwmni cydweithredol wedi rhoi i'r artistiaid fwy o ryddid yn eu gwaith, oherwydd ei fod yn golygu nad ydynt yn rhwym wrth alwadau sefydliad masnachol.

## Tai Cymunedol Bron Afon

**Sefydlwyd:** 2008

**Busnes:** Landlord cymdeithasol cofrestredig

**Trosiant:** £30.6 miliwn

**Gwarged gweithredu:** £8.7 miliwn

**Gweithwyr:** 448

**Aelodau:** 1,393, gydag 88% ohonynt yn denantiaid



Sefydlwyd Bron Afon yn gwmni cydfruddiannol cymunedol gyda throsglwyddo'r stoc dai o ddwylo Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Dywedodd y tenantiaid fod arnynt eisiau landlord a oedd yn cael ei reoli'n ddemocrataidd gyda lefelau uchel o gyfranogiad y gymuned, felly yn ogystal â'r tenantiaid yn ethol aelodau'r bwrdd ceir nifer o sianelau eraill i'r tenantiaid ddweud eu dweud. Cyfrannodd yr aelodau 4,380 o oriau o'u hamser yn siapio ac yn datblygu gwasanaethau a pholisïau Bron Afon yn ystod 2009/10.

Mae Tai Cymunedol Bron Afon yn darparu dros 8,000 o gartrefi rhent fforddiadwy i bobl sydd ag angen tai yn Nhorfaen. Yn ogystal ag anelu i reoli ei stoc yn effeithiol, mae Bron Afon yn buddsoddi £40 miliwn y flwyddyn mewn gwelliannau megis drysau, ffenestri, ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd yn ogystal ag yn clirio'r gwaith trwsio oedd wedi cronni. Yn ogystal, mae Bron Afon yn mynd ati i ddatblygu cymunedau drwy

ddull 'fîm'. Bu'n rhan o'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau ieuencid a phlant ym Mlaenafon a Phont-y-pŵl, mae'n rhedeg caffi cymunedol yn ei bencadlys yng Nghwbrân, ac mae'n hyfforddi 43 o brentisiaid yn ychwanegol at ei staff. Mae Bron Afon hefyd yn datblygu ei bolisïau amgylcheddol gan gynnwys cynllun ailgylchu peilot ac yn gosod systemau ynni adnewyddadwy mewn cartrefi.

Mae'r boddhad yn uchel ymysg tenantiaid – mae 83% yn fodlon gyda'u cartref ac mae bron yr un gyfran yn fodlon gyda gwasanaethau Bron Afon. Roedd tri chwarter o'r tenantiaid yn fodlon gyda'r cyfleoedd i ddyllanwadu ar benderfyniadau.

# MANTAIS YCHWANEGOL CWMNIAU CYDWEITHREDOL

Dilysnod cwmnïau cydweithredol yw eu bod yn gweithredu er budd cyfunol nid elw personol. Boed y budd hwnnw i'r cwsmeriaid, y gymuned neu'r gweithlu, dengys y dystiolaeth bod cwmnïau cydweithredol yn darparu buddion ychwanegol o'u cymharu â busnesau prif ffrwd.

## Budd cymunedol

Mae gan gwmnïau cydweithredol a chwmmnïau cydfuddiannol yng Nghymru dros hanner miliwn o aelodau.<sup>xii</sup> Mae aelodaeth yn rhoi gwreiddiau cryf i gwmnïau cydweithredol yn y gymuned, ac mae hyn yn rhoi iddynt fantais gystadleuol oherwydd eu bod yn hysbys yn eu cymunedau a gallant ddatblygu enw da gyda'r cwsmeriaid lleol.<sup>xiii</sup> Mae hyn yn rhoi mantais i gwmnïau cydweithredol dros gwmnïau sector preifat, ac mae'r fantais hon yn ofynnol er mwyn cynyddu gwerthoedd rhanddeiliaid i'r eithaf.<sup>xiii</sup> Er enghraifft, roedd 82 y cant o gwmnïau dan berchnogaeth y gweithwyr yn teimlo bod cwmnïau o'r fath yn gweithredu gyda mwy o gyfrifoldeb cymdeithasol nag eraill a bod hyn o fantais.<sup>xiv</sup>

Mae cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol fel arfer yn ail-fuddsoddi rhyw gymaint o'u helw neu'r cyfan ohono ymysg eu haelodau ac yn y gymuned. Bu i'r Grŵp Cydweithredol, er enghraifft, ddisbarthu £104 miliwn o'i elw cyn treth yn 2010 i aelodau a chymunedau.<sup>xv</sup> O safbwynt mentrau cymdeithasol y DU, dywed 82% eu bod yn ail-fuddsoddi eu helw er mwyn cyrraedd eu nodau cymdeithasol neu amgylcheddol,<sup>xvi</sup> a bu i arolwg o'r sector cwmnïau cydweithredol a chwmmnïau cydfuddiannol ganfod eu bod yn rhoi dros 1.35 y cant o'u helw cyn treth i gefnogi eu cymunedau lleol yn uniongyrchol, o'i gymharu â ffigur cyfartalog o 0.8 y cant ar gyfer y cwmnïau a ddyfynnir fel 100 cwmni'r FTSE.<sup>xvii</sup>

Yn ogystal, mae cwmnïau cydweithredol yn gweithredu i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol yn y gymuned. Mae nifer o astudiaethau wedi canfod bod busnesau dan berchnogaeth y gweithwyr yn cael llawer

mwy o effaith ar y gymuned ehangach na busnesau prif ffrwd, gan fod y 'ddinasyddiaeth gorfforaethol' a gaiff ei meithrin ymysg y gweithwyr yn ymestyn y tu hwnt i'r gweithle.<sup>xviii</sup> Yn yr un modd, gwelwyd bod cwmnïau cydweithredol tai yn annog cyfranogaeth ehangach yn y gymuned ymysg aelodau cwmnïau cydweithredol.<sup>xlix</sup>

Gall cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol hefyd helpu unigolion i fod yn rhan o'u cymuned, yn benodol drwy ddarparu llwybr i gyflogaeth.<sup>i</sup> Dywed dros hanner mentrau cymdeithasol eu bod yn mynd ati i recriwtio pobl sydd dan anfantais yn y farchnad lafur i ryw raddau.<sup>ii</sup>

## Cydraddoldeb

Mae cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol yn gyffredinol yn fwy tebygol o gynnwys menywod a grwpiau ethnig lleiafrifol na busnesau preifat. Canfu arolwg Monitor Entrepreneuriaeth Fyd-eang 2006 fod cyfran fwy o fenywod, pobl ifanc a phobl o gymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig yn weithgar mewn mentrau cymdeithasol nag mewn busnesau prif ffrwd.<sup>iii</sup> Nid yn unig hynny, ond mae gweithwyr sy'n bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a menywod mewn mentrau cymdeithasol yn fwy tebygol o gyrraedd safle arweinyddiaeth nag mewn mathau eraill o fusnesau,<sup>iiii</sup> er enghraifft oherwydd y cânt gyfleoedd i sefyll i'w hethol i fwrdd cwmni cydweithredol.

## Effaith amgylcheddol

Mae cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol yn gweithio dros Gymru fwy gwyrdd. Mae oddeutu un o bob saith cwmni cydweithredol yng Nghymru<sup>iv</sup> yn gwneud cyfraniad uniongyrchol drwy weithredu yn y sector amgylcheddol, er enghraifft ym maes ynni adnewyddadwy. Yn ogystal, mae chwarter mentrau cymdeithasol y DU yn hawlio eu bod yn cyfrannu at nodau amgylcheddol mewn rhyw ffordd.<sup>v</sup> Mae 88% o fentrau cymdeithasol y DU yn ceisio lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd – i gymharu, mae 44% o fusnesau bach nad ydynt wedi gweithredu o gwbl.<sup>vi</sup>

## Cynnwys

Mae cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol yn fwy tebygol o gynnwys menywod a grwpiau ethnig lleiafrifol na busnesau preifat

## £104m

Dosbarthodd y Grŵp Cydweithredol £104 miliwn o'i elw cyn treth yn 2010 i aelodau a chymunedau

## 1.35%

Rhoddodd busnesau y sector cydfuddiannol a chydweithredol dros 1.35 y cant o'u helw cyn treth i gefnogi eu cymunedau lleol yn uniongyrchol



## Dulas Ltd

**Sefydlwyd:** 2003

**Trosiant:** £22.3 miliwn

**Elw cyn treth:** £1 filiwn

**Busnes:** Ynni adnewyddadwy

**Gweithwyr:** 88 ar ddiwedd 2010

Sefydlwyd Dulas Ltd gan beirianwyr o'r Ganolfan Dechnoleg Amgen ym Machynlleth i ddarparu gwasanaethau ynni adnewyddadwy proffesiynol yn fasnachol. Y gweithwyr yw perchnogion Dulas, a hwy sy'n ethol bwrdd o bump o gyfarwyddwyr bob blwyddyn. Nid oes ganddo ddim buddsoddwyr allanol a chaiff ei ariannu i raddau helaeth drwy werthiannau.

Mae ei drosiant wedi cynyddu'n gyflym – i fyny dros 100% mewn tair blynedd – a bu Dulas ymysg y 50 busnes sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru am dair blynedd yn olynol. Mae ei elw hefyd wedi cynyddu'n gyflym fel bod difidendau gwerth dros £200,000 wedi cael eu talu i'w weithwyr-gyfranddalwyr yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Rhagfyr 2010. Mae Dulas wedi ennill gwobrau lu am ei berfformiad eithriadol a'i gynhyrchion arloesol, gan gynnwys Gwobr y Frenhines am Fenter yn 2004, Cwmni Ynni Adnewyddadwy Gorau 2009 y Gymdeithas Ynni Adnewyddadwy, Gwobr Twf Masnachol a Gwobr Cwmni Mwyaf Gwyrdd,

Achievement Wales 2009 a Gwobr Arferion Gorau Amgylcheddol 'Afal Gwyrdd' 2009.

Yn 2010 roedd gan Dulas 80 o weithwyr yn ei bencadlys ym Machynlleth, gan ei wneud yn un o'r cyflogwyr mwyaf yn yr ardal, yn ogystal â swyddfa yn yr Alban.

Mae Dulas yn gweithredu gydag ethos cymunedol cadarn, ac mae'n gweithio gydag ysgolion a phrosiectau cymunedol i ddarparu gwasanaethau technegol a chefnogaeth addysg. Mae'n cynnig swyddi dan hyfforddiant i raddedigion newydd, gan eu galluogi i gael profiad gwaith hanfodol ym maes ynni adnewyddadwy. Mae'r cwmni cydweithredol yn rhoi hyd at 3% o'i elw bob blwyddyn i elusennau ac mae'n buddsoddi'n helaeth yn lles y staff.

Ffynhonnell: [www.dulas.co.uk](http://www.dulas.co.uk); Cyfrifon Cryno ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31ain Rhagfyr 2010; Ashden Foundation ([www.ashden.org](http://www.ashden.org)); Co-operatives UK.



# DYFODOL CWMNIAU CYDWEITHREDOL

Cafodd Cymru ei tharo'n galed gan y dirwasgiad a'r adferiad dilynol gwan. Mae gormod o fusnesau mawr Cymru wedi cau, gan adael un o bob deg o bobl yn ddi-waith, cyflogau'n cael eu gwasgu a'r rheini sydd mewn gwaith yn pryderu am eu dyfodol. Bydd cyfyngiadau ar wariant a gwasanaethau cyhoeddus, ynghyd â diwygio lles, yn rhoi pwysau pellach ar unigolion, teuluoedd a chymunedau ac ar y gwasanaethau – yn gyhoeddus a phreifat – y maent yn dibynnu arnynt.

Mae cwmnïau cydweithredol yn cynnig ateb radical i'r problemau hyn. Maent yn unigryw yn eu manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol – y llinell sylfaen driphlyg, fel y'i gelwir, sef:

- + creu swyddi cynaliadwy,
- + sicrhau manteision i'r gymuned
- + a, diogelu'r amgylchedd

Pe byddech yn ychwanegu at hyn y ffaith bod cwmnïau cydweithredol Cymru wedi'u 'hangori' yng Nghymru, yn arloesol a phroffidiol, ac yn bodloni gwir anghenion cymunedol ac mae'r ddadl dros fuddsoddi sylweddol pellach mewn cwmnïau cydweithredol yn ysgubol.

Nid ar y raddfa fechan, gymunedol y mae effaith bosibl cwmnïau cydweithredol. Gall cwmnïau cydweithredol yn unigol ac yn gyfunol, fel ei gilydd, wneud gwahaniaeth mawr i ffyniant economïau rhanbarthol a chenedlaethol hefyd. Ddeg ar hugain o flynyddoedd yn ôl profiadau Mondragon, Sbaen wnaeth ysbrydoli sefydlu Canolfan Cydweithredol Cymru. Heddiw, ceir tystiolaeth anorchfygol o bob cwr o'r byd y gall cwmnïau cydweithredol gynnig ffordd wahanol o ddatblygu'r economi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol. Er enghraifft, mae 30 allan o 100 prif fusnes yr Eidal heddiw yn gwmnïau cydweithredol, ac mae rhanbarth Emilia Romagna wedi mynd o un o'r rhanbarthau tlotaf i un o'r cyfoethocaf mewn llai na 30 mlynedd. Priodolir y llwyddiant hwnnw i'w chwmnïau cydweithredol a'r gefnogaeth gadarn a gawsant gan lywodraeth yr Eidal.

Ceir eisoes fusnesau cydweithredol ardderchog yng Nghymru, yn amrywio o'r bach i'r mawr, gan amrywio ar draws sectorau economaidd a gyda gwahanol fathau o berchnogaeth. Mae gan y cwmnïau cydweithredol hyn un peth yn gyffredin – ymrwymiad a rennir i berchnogaeth ddemocrataidd dros y busnes a chyrraedd nodau cymdeithasol ac amgylcheddol, yn ogystal â rhai economaidd. Mae cwmnïau cydweithredol presennol Cymru yn dangos yr hyn y gellir ei wneud. Gydag ymrwymiad gan y Llywodraeth i ddatblygu cwmnïau cydweithredol, ymdrech unedig i roi rhagor ar ben ffordd, a sylweddoliad bod cwmnïau cydweithredol yn ffordd well o fasnachu, gallai Cymru gael ei thrawsnewid.

## 30

Mae 30 allan o 100 prif fusnes yr Eidal yn gwmnïau cydweithredol

## Rhannu

Mae gan gwmnïau cydweithredol yng Nghymru un peth yn gyffredin – ymrwymiad a rennir i berchnogaeth ddemocrataidd dros y busnes a chyrraedd nodau cymdeithasol ac amgylcheddol, yn ogystal â rhai economaidd



# Nodiadau

- <sup>ii</sup> UN (heb ei ddyddio) *Background Paper on Co-operatives*. Ar gael yn: <http://www.un.org/ar/events/cooperativesday/pdf/more.background.info.pdf>
- <sup>i</sup> Co-operatives UK (2011) *The UK Co-operative Economy*, Manceinion: Co-operatives UK
- <sup>iii</sup> Lampel, J., Bhalla, A. and Jha, P. (2010) *Do employee-owned businesses deliver sustainable performance?* Llundain: Employee Ownership Association
- <sup>iiii</sup> Nid yw pob busnes dan berchnogaeth y gweithwyr yn gwmnïau cydweithredol, oherwydd efallai nad y gweithwyr sy'n berchen yn llwyr ar y busnes neu efallai nad yw'n gweithredu ar egwyddorion democrataidd.
- <sup>iv</sup> Camere di Commercio d'Italia, "Secondo rapporto sulle imprese cooperative"
- <sup>v</sup> Meininger's WBI, 'A look at Italys Co-ops', ar gael yn: [http://micheleshah.com/wp-content/uploads/2011/05/mwbi\\_209\\_p58-61\\_m\\_italy\\_coop\\_f2-copy1.pdf](http://micheleshah.com/wp-content/uploads/2011/05/mwbi_209_p58-61_m_italy_coop_f2-copy1.pdf)
- <sup>vi</sup> Thomas, A. (2004) 'The rise of social co-operatives in Italy' *International Journal of Voluntary and Nonprofit Organizations*, Vol. 15 (3)
- <sup>vii</sup> Red Pepper, ar gael yn: <http://www.redpepper.org.uk/europe-s-co-op-boom/>
- <sup>viii</sup> Social Enterprise London (2010) *Social co-operatives in Italy: Lessons for the UK*
- <sup>ix</sup> Restakis, J. (heb ei ddyddio) *The Emilian Model – Profile of a Co-operative Economy*. Ar gael yn: [http://auspace.athabasca.ca/bitstream/2149/1111/1/Emilia\\_Romagna\\_Model.pdf](http://auspace.athabasca.ca/bitstream/2149/1111/1/Emilia_Romagna_Model.pdf)
- <sup>x</sup> Zamagni, V. (2006) *Italy's co-operatives from marginality to success*, Cyflwyniad i gynhadledd Mentrau Cydweithredol a Rhwydweithiau Cydweithredol, Helsinki 21-25 Awst. Ar gael yn: <http://www.cooperativegrocer.coop/articles/2003-12-02/italys-emilia-romagna>
- <sup>xi</sup> Logue, J. (heb ei ddyddio) *Economics, Co-operation, and Employee Ownership: The Emilia Romagna model – in more detail*. Prifysgol Caint. Ar gael yn: [http://www.community-wealth.org/\\_pdfs/articles-publications/outside-us/article-logue.pdf](http://www.community-wealth.org/_pdfs/articles-publications/outside-us/article-logue.pdf)
- <sup>xii</sup> Arthur, L., Scott Cato, M., Keenoy, T. and Smith, R. (2004) *An Audit of Co-operative Activity in Wales, Cardiff*. Caerdydd: Athrofa Cymru ar gyfer Ymchwil i Gydweithfaoedd, Ysgol Fusnes Athrofa Prifysgol Cymru
- <sup>xiii</sup> Darparwyd y data gan Co-operatives UK
- <sup>xiv</sup> Co-operatives UK (2011) *op. cit.*
- <sup>xv</sup> *ibid.*
- <sup>xvi</sup> *ibid.*
- <sup>xvii</sup> Social Enterprise UK (2011) *Fightback Britain: A report on the state of Social Enterprise Survey 2011*, Llundain: Social Enterprise UK
- <sup>xviii</sup> *ibid.*
- <sup>xix</sup> Co-operatives UK (2011) *op. cit.*
- <sup>xx</sup> Grŵp Cydweithredol (2011) Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol.
- <sup>xxi</sup> Cooperatives Wales (heb ei ddyddio) *The Co-operative Economy in Wales: a different way of doing business*. Ar gael yn: <http://www.cooperatives-wales.coop/wp-content/uploads/2009/11/The-Co-operative-Economy-in-Wales.pdf>
- <sup>xxii</sup> Nwy, trydan a dŵr
- <sup>xxiii</sup> Co-operatives Wales (heb ei ddyddio) *op. cit.*
- <sup>xxiv</sup> Social Enterprise UK (2011) *op. cit.*
- <sup>xxv</sup> *ibid.*
- <sup>xxvi</sup> Hertig, M.E.C. (heb ei ddyddio) *100 million jobs: the contribution of co-operatives to employment creation*, ILO. Ar gael yn: [www.ilo.org/wcmsp5/groups/public/@ed.../wcms\\_101313.pdf](http://www.ilo.org/wcmsp5/groups/public/@ed.../wcms_101313.pdf)
- <sup>xxvii</sup> Cooperatives UK (2011) *op. cit.*
- <sup>xxviii</sup> Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Berchnogaeth Gweithwyr (2008) *Share value: how employee ownership is changing the face of business*. Ar gael yn: <http://www.employeeownership.co.uk/news/events/all-party-parliamentary-group-on-employee-ownership/>
- <sup>xxix</sup> Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus (2010) *New Models of Public Service Ownership*, Llundain: OPM
- <sup>xxx</sup> Social Enterprise UK (2011) *op. cit.*
- <sup>xxxi</sup> Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus (2010) *op. cit.*
- <sup>xxxii</sup> ILO (heb ei ddyddio) *The Resilience of Social and Solidarity Enterprises: the Example of Co-operatives*, Briff Rhif 10
- <sup>xxxiii</sup> Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus (2010) *op. cit.*
- <sup>xxxiv</sup> Social Enterprise UK (2011) *op. cit.*
- <sup>xxxv</sup> Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus (2010) *op. cit.*
- <sup>xxxvi</sup> Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Berchnogaeth Gweithwyr (2008) *op. cit.*
- <sup>xxxvii</sup> Bliss, N. (gol.) (heb ei ddyddio) *Bringing Democracy Home*, West Bromwich: Commission on Co-operative and Mutual Housing
- <sup>xxxviii</sup> Dyfynnir yn Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus (2010) *op. cit.*
- <sup>xxxix</sup> Hertig, M.E.C. (heb ei ddyddio) *op. cit.*
- <sup>xl</sup> Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Berchnogaeth Gweithwyr (2008) *op. cit.*
- <sup>xli</sup> Co-operatives Wales (heb ei ddyddio) *op. cit.*
- <sup>xlii</sup> Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus (2010) *op. cit.*
- <sup>xliiii</sup> *ibid.*
- <sup>xliiv</sup> *ibid.*
- <sup>xli v</sup> Grŵp Cydweithredol (2010) *op. cit.*
- <sup>xli vi</sup> Social Enterprise UK (2011) *Op. Cit.*
- <sup>xli vii</sup> Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus (2010) *Op. Cit.*
- <sup>xli viii</sup> *ibid.*
- <sup>xli ix</sup> Bliss, N. (gol.) (heb ei ddyddio) *Bringing Democracy Home*, West Bromwich: Commission on Co-operative and Mutual Housing
- <sup>l</sup> Teasdale, S. (2009) *Can social enterprise address social exclusion?* Birmingham: Third Sector Research Centre
- <sup>ii</sup> Social Enterprise UK (2011) *op. cit.*
- <sup>iii</sup> Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (2008) *Social Enterprise: Making it Work for Black, Asian and Minority Ethnic Women*, Llundain: Swyddfa Cydraddoldebau
- <sup>iv</sup> Social Enterprise UK (2011) *op. cit.*
- <sup>v</sup> Scott Cato, M., Arthur, L., Keenoy, T. and Smith, R. (heb ei ddyddio) *Green and Red? Proposing the Existence of a Co-operative Environmental Niche in Wales*. Caerdydd: Athrofa Cymru ar gyfer Ymchwil i Gydweithfaoedd, Athrofa Prifysgol Cymru
- <sup>vi</sup> Peattie, K. and Morley, A. (heb ei ddyddio) *Social Enterprises: Diversity and Dynamics, Contexts and Contributions*. Caerdydd: BRASS
- <sup>vii</sup> Social Enterprise UK (2011) *op. cit.*

## Lluniau

Lluniau cleientiaid Canolfan Cydweithredol Cymru yw'r rhan fwyaf o'r lluniau yn yr adroddiad hwn.

Diolch yn fawr i'r canlynol am luniau ychwanegol: Aber Instruments, Dulas, Tai Cymunedol Bron Afon, Fresh Plaza, Old Library Artists, Cwmni Cydweithredol Mondragon, RCT Homes, Shaw Health Care a'r Grŵp Cydweithredol.